CYNGOR CYMUNED LLANENGAN

Clerc – Einir Wyn – *Clerk*
Fferm Cae Du, Aber-soch, PWLLHELI, Gwynedd. LL53 7HT
Ffôn: (01758) 712434
E-bost: caedu@dialstart.net
Gwefan: www.cyngorcymunedllanengan.cymru

Chwefror 7fed, 2018

Annwyl Aelod,

Gwysir chi i fod yn bresennol yng Nghyfarfod Misol y Cyngor **nos Fercher, Chwefror 14eg, 2018** yng Nghanolfan Llanengan am saith o'r gloch.

Disgwylir Ifan Llewelyn Jones, Cynllun Hunan*iaith*, i egluro'r cynllun.

RHAGLEN

1. Croeso ac Ymddiheuriadau
2. Datgan Buddiant Personol
3. Cadarnhau Cofnodion – Ionawr 10fed, 2018
4. Ceisiadau Cynllunio (gweler rhestr drosodd)
5. **Materion yn Codi o'r Cofnodion**:
   - i) 4a) Toiledau Cyhoeddus
   - ii) 4b) Cae Chwarae Aber-soch – Cytundeb Torri Gwellt
   - iii) 4c) Meddygfa Aber-soch
   - iv) 4ch) Coed yr Allt, Aber-soch
   - v) 4dd) 10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref – Mae Angen eich Help!
   - vi) 4e) 10. Gohebiaeth: d) Tesni Roberts, Cysylltwr Cymunedol – Gwasanaeth Cymdeithasol – Ymchwil Cymuned Llanengan
6. **Mynwent** – Dileu Ffioedd Llywodraeth Leol am Gladdu Plant; Cytundeb Torri Gwellt
7. **Cyfrifon –** Archwiliwr Mewnol; Cytundeb Trydan y Toiledau; Ceisiadau Ariannol
8. **Materion Cynllunio** – Materion yn y Gymuned; Llythyr ynglŷn â Safle Carafannau Ty'n Coed, Aber-soch; Datblygiad Stâd Cornwall, Mynytho; Cymorth Cynllunio Cymru – Hyfforddiant ar Gynllunio
9. **Materion Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – Cynllun Parcio Y Fach – Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig; Blwch Post Llangïan; Materion yn y Gymuned; Rhybudd Cau Ffordd ger Bryn Eithin, Mynytho
10. **Materion Hawliau Tramwy** – Torri'r Llwybrau
11. **Gohebiaeth**:
    - a) ***Un Llais Cymru (ULIC)*** – Ymgynghoriad ar Adran 8 Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017: Strategaethau Lleol ar gyfer Darparu Toiledau; Rheoliad

Diogelu Data Cyffredinol; Cynllun Caru Gwenyn; Bwletin mis Ionawr; Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol; Cylchlythyr Hybu'r Gymraeg

b) ***Llywodraeth Cymru –*** Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd – Cynigion Drafft (Atodiad A)

c) Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn

ch) Swyddog Adfywio – Gwynedd Ddigidol

d) Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd – Ailfodelu Gwasanaeth Ieuenctid Gwynedd

dd) Clwb Moduro Harlech a'r Cylch Cyf. – Rali Goffa Merfyn Hughes, Rali Llŷn Mawrth 17eg-18fed

e) Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant – Sefydlu Timau Adnoddau Cymunedol

12. Dyfarniadau Cynllunio
13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau
14. Dyddiad y Cyfarfod nesaf – nos Fercher, Mawrth 14eg, 2018

Yn gywir,

Einir Wyn

EINIR WYN
Clerc

Amg.

CEISIADAU CYNLLUNIO I'W TRAFOD YNG NGHYFARFOD MIS CHWEFROR

RHIF	RHIF Y CAIS	DISGRIFIAD
1	C17/0967/39/LL	Creu safle ar gyfer deuddeg (12) pabell saffari – **Tir yn Nhyn-y-Cae, Llangïan**
2	C17/1056/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Cais ar gyfer lleoli deg carafán deithiol ac un sefydlog ar gyfer rheolwr, codi bloc cawodydd a thoiled, ffens atal sŵn, clawdd, ffordd mynediad newydd a llefydd parcio i gapel gerllaw – **Frondeg, Llanengan – Datgana'r Cyngor ddiddordeb oherwydd ei fod yn berchen ar estyniad Mynwent y Bwlch**
3	C17/1161/39/LL	**Cais Diwygiedig –** Diwygio Amod 4 ar Ganiatâd Cynllunio C15/0901/39/LL er diwygio dyluniad y tŷ arfaethedig – **Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch**
4	C17/1258/39/LL	Addasu siop yn uned wyliau – **Yr Hen Fecws, Stryd Fawr, Aber-soch**
5	C18/0027/39/LL	Estyniad deulawr i gefn yr annedd – **Wharfdale, Lôn Rhoslyn, Aber-soch**
6	C18/0035/39/LL	Adeiladu balconi i'r blaen a chyfnewid ffenestr am ddrws patio – **271 Cae Du, Aber-soch**
7	C18/0039/39/LL	Tynnu Amod 7 o Ganiatâd Cynllunio C10A/0397/39/AM sy'n amod i'r tŷ fod yn gartref parhaol – **Tir ger Anhywel, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
8	C18/0048/39/LL	Adeiladu cwt glan môr newydd heb gydymffurfio ag Amod 2 Caniatâd Cynllunio C15/0537/39/LL dyddiedig Gorffennaf 3ydd, 2015 – **Cwt Glan Môr 15, Borth Fawr, Aber-soch**
9	C18/0063/39/LL	Estyniad ac addasiadau yn cynnwys codi uchder crib to a gosod ffenestr gromen – **Clogwyn, Bwlchtocyn**